Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R:	**Cabinet**
DYDDIAD:	**4 Hydref 2022**
LLEOLIAD:	**Hybrid**
TEITL:	**Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd'**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Rhoi adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2022**

CEFNDIR:

Mae 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd', Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion yn amlinellu ein dull corfforaethol o weithredu o ran ymgysylltu a chyfranogi â phobl Ceredigion. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Polisi drafft blaenorol ar Hydref y 14eg 2021 a chafodd ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod cyfnod y gaeaf y flwyddyn honno. Fodd bynnag, bu oedi gyda'r ymgynghoriad oherwydd gofynion Rhan 3, adran 41 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ymwneud ag ymgynghori ac adolygu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor.

Wedi hynny, diwygiwyd y Polisi Ymgysylltu drafft i gynnwys Cyfranogi ac fe'i cyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2022. Cytunodd y Cabinet ar ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Haf 2022. Mae'r polisi terfynol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r canfyddiadau.

Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth o'r polisi, cytunodd yr Aelodau ar y canlynol ac maent yn argymell bod y Cabinet yn:

- Cael ac yn cymeradwyo'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi – Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd.

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol